OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1343 (Cy.133)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*16 Mai 2006*
Yn dod i rym	- -	*31 Mai 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3(3D), 4(2)(ba) a (d), 4A, 14(3) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 31 Mai 2006.

Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000

2. Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000(**3**)yn cael eu diwygio fel a ganlyn–

(a) yn rheoliad 2, yn lle'r diffiniad o "corff priodol"rhodder y canlynol—

> "mae i "corff priodol" ("appropriate body") yr ystyr sydd i'r ymadrodd yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005(**4**);";

(b) ar ôl rheoliad 4 mewnosoder y rheoliadau canlynol –

(**1**) 1998 p.30. Mae adrannau 2 i 7 yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adran 9. Mewnosodwyd adrannau 3(3D), 4(2)(ba) a 4A gan baragraffau 3(5), 4(2) a 5 yn y drefn honno o Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Diwygiwyd adran 4(3) gan baragraff 77 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32.). I weld ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 43(1).

(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

(**3**) O.S. 2000/1979 (Cy. 140) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2496 (Cy.200), O.S. 2004/1741 ac O.S. 2005/69.

(**4**) O.S. 2005/1818(Cy.146).

"**Addasrwydd i fod yn athro neu'n athrawes**

4A.—(1) Nid yw'r Cyngor i gymryd bod unrhyw berson yn addas i fod yn athro neu'n athrawes os yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr wedi gwrthod cais am i'r person gael ei gofrestru a hynny am y rheswm nad oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr yn fodlon ei fod yn addas i fod yn athro neu'n athrawes o dan adran 3(3B) o Ddeddf 1998(**5**).

(2) Rhaid i'r Cyngor gymryd bod unrhyw berson yn addas i fod yn athro neu athrawes os yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr wedi ei gofrestru a bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr ar adeg cofrestru'r person yn fodlon ei fod yn addas i fod yn athro neu'n athrawes o dan adran 3(3B) o Ddeddf 1998.

Hysbysu o'r penderfyniad

4B.—(1) Rhaid i'r Cyngor gyflwyno i'r sawl sy'n gwneud cais am gael ei gofrestru hysbysiad o'i benderfyniad i ganiatáu neu i wrthod y cais.

(2) Os gwrthodir y cais cofrestru, rhaid i'r hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (1) nodi ar ba sail y gwnaed y penderfyniad, ac os sail gwrthod y cais oedd nad oedd y Cyngor yn fodlon bod y ceisydd yn addas i fod yn athro neu'n athrawes rhaid iddo hysbysu'r ceisydd o'i hawl i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn y penderfyniad a wnaed, ac o beth yw'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud ap 144 l o'r fath.

Apelau

4C. Mae gan unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad i wrthod cais am gofrestru a wnaed mewn perthynas ag ef ar y sail nad oedd y Cyngor yn fodlon bod y ceisydd yn addas i fod yn athro neu'n athrawes yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Uchel Lys o fewn 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad y cyflwynwyd iddo hysbysiad o'r penderfyniad.

Cyflwyno Hysbysiadau

4CH.—(1) Caniateir i hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno i berson o dan reoliad 4B–

(i) cael ei draddodi i'r person hwnnw'n bersonol; neu

(ii) cael ei anfon drwy'r post at y person hwnnw i'r cyfeiriad a roddwyd i'r Cyngor gan y person; neu

(ii) cael ei anfon ato ar ffurf ffacsimili neu bost electronig neu drwy ddull tebyg sy'n caniatáu cynhyrchu dogfen sy'n cynnwys testun yr ohebiaeth, os yw'r person hwnnw'n gwneud cais ysgrifenedig i ddogfennau gael eu cyflwyno iddo drwy'r cyfryw ddull, ac os felly bernir bod y ddogfen wedi'i hanfon pan yw'n dod i law'r person hwnnw ar ffurf ddarllenadwy.

(2) At ddibenion rheoliad 4C cymerir bod hysbysiad o benderfyniad y Cyngor wedi'i gyflwyno i'r person y cafodd yr hysbysiad ei wneud mewn perthynas ag ef–

(i) os cafodd ei draddodi i'r person hwnnw'n bersonol, ar y diwrnod y cafodd ei draddodi;

(**5**) Mewnosodwyd adran 3(3B) o Ddeddf 1998 gan baragraff 3(5) o Ddeddf Addysg 2002 (p.32).